



Allgáu Digidol Ymysg Busnesau Bach

Adroddiad Ymchwil

Dyddiad: 11.4.23

Cynnwys

- | | |
|----------------------|----|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Dull A Sampl | 4 |
| 3. Crynodeb Rheoli | 7 |
| 4. Prif Ganfyddiadau | 10 |
| 5. Casgliadau | 33 |
| 6. Atodiadau | 38 |

Paratowyd ar gyfer:

Cwmpas
Cymunedau Digidol Cymru

Paratowyd gan:

Research Works Limited
Regus
2 Victoria Square
St Albans, Herts
AL1 3TF
all@researchworks.co.uk

1. Rhagarweiniad

1.1 Cefndir

Mae [Cwmpas](#) yn cyflwyno Rhaglen Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant: [Cymunedau Digidol Cymru](#) (CDC) a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae Cymunedau Digidol Cymru (CDC) yn bodoli i leihau allgáu digidol yng Nghymru. Ei nod yw creu Cymru lle mae gan bawb y sgiliau, y mynediad a'r cymhelliant i fod yn ddefnyddiwr hyderus o dechnoleg ddigidol.

Mae darpariaeth CDC yn canolbwyntio ar gyrraedd unrhyw un nad yw ar-lein drwy weithio gyda sefydliadau sy'n eu cefnogi'n uniongyrchol. Mae'n gweithio gyda chyrrff y Trydydd Sector a'r Sector Cyhoeddus a sefydliadau'r Sector Preifat, gan gynnwys darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddangos arfer gorau ar sut i ymgysylltu pobl â thechnolegau a helpu i gefnogi eu datblygiad o ran sgiliau digidol sylfaenol. Mae CDC yn darparu cymorth ymgynghori i ymgorffori cynhwysiant digidol yn weithredol ac yn strategol, yn ogystal â benthyciadau ar gyfer dyfeisiau, archwiliadau sgiliau digidol a hyfforddiant sgiliau digidol ar gyfer staff/gwirfoddolwyr sy'n wynebu'r cyhoedd.



Ar hyn o bryd, nid oes gan CDC gynnig penodol ar gyfer busnesau bach a chanolig yn y sector preifat yng Nghymru. Er mwyn dylunio arlwy effeithiol, comisiynodd Cwmpas [Research Works Limited](#) i gynnal ymchwil ansoddol i nodi dealltwriaeth busnesau bach o gynhwysiant digidol yng Nghymru ac i ddeall beth yw effaith allgáu digidol ar gyfer busnesau bach a chanolig.

1.2 Amcanion ymchwil

Roedd angen yr ymchwil i:

- Ddisgrifio natur y sector busnesau bach, preifat yng Nghymru
- Disgrifio'r hyn y mae cynhwysiant digidol yn ei olygu yn y sector hwn
- Nodi rhwystrau o ran allgáu digidol a sgiliau digidol sy'n wynebu busnesau bach preifat
- Tynnu sylw at effaith allgáu digidol a diffyg sgiliau digidol ar fusnesau bach preifat, eu staff a'u cwsmeriaid
- Darparu argymhellion a mewnwelediadau y gellir eu rhoi ar waith i wella dealltwriaeth o effaith allgáu digidol ar y sector hwn, a pha gymorth sydd ei angen ar fusnesau bach preifat yn y dyfodol

2. Dull a Sampl

2.1 Dull ymchwil

Roedd y dull yn cynnwys ymchwil desg ac ymchwil ansoddol. Dewiswyd y dulliau hyn er mwyn cyflawni'r dyfnder a'r manylder oedd eu hangen i ymdrin â'r amcanion ymchwil.

2.1.1 Ymchwil desg

Roedd yr ymchwil desg yn canolbwyntio ar nodi nodweddion sector y busnesau bach preifat yng Nghymru, yn enwedig o ran maint busnes, sector diwydiant a lleoliadau; ac er mwyn sefydlu a os oes unrhyw dystiolaeth o gynhwysiant digidol yn bodoli eisoes o fewn sector y busnesau bach preifat.

Cynhaliwyd chwiliad ar-lein cychwynnol gan ddefnyddio termau chwilio y cytunwyd arnynt (sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad A). Nododd hwn 23 o ffynonellau posibl a adolygwyd wedyn yn erbyn y meini prawf allgáu a chynnwys isod.

- Roedd astudiaethau'n canolbwyntio ar un neu fwy o'r pynciau canlynol:
 - Cyfansoddiad sector y busnesau bach preifat yng Nghymru; maint busnesau, y sector diwydiant, lleoliadau
 - Gallu digidol busnesau bach yn y sector preifat
 - Rhwystrau i ddatblygu sgiliau digidol ymhlith busnesau bach, eu staff, a'u cwsmeriaid
 - Effaith allgáu digidol ar fusnesau bach
 - Effaith covid ar allu digidol yn sector y busnesau bach preifat
- Ffocws daearyddol: Cymru neu'r DU
- Dyddiad yr ymchwil/cyhoeddiad: dylech gynnwys astudiaethau a gyhoeddwyd ar ôl 2015 yn unig

- Dulliau ymchwil: ymchwil sylfaenol ac eilaidd, yn ogystal ag astudiaethau sy'n defnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys dulliau ansoddol, meintiol a chymysg. Roedd llenyddiaeth academiaidd a llenyddiaeth lwyd yn gynnwysedig

Nododd y broses hon 17 o ffynonellau perthnasol a adolygwyd yn llawn ac a restrir yn Atodiad B. Crynhowyd y dystiolaeth mewn adroddiad ymchwil desg a roddodd gyd-destun i allgáu digidol a diffyg sgiliau digidol o fewn y sector busnesau bach yng Nghymru. Roedd y canfyddiadau hyn yn sail i'r canllawiau pwnc ansoddol ar gyfer y cyfweiliadau manwl â rhanddeiliaid (a gynhwysir yn Atodiad C).

2.1.2 Ymchwil ansoddol

Cynhaliwyd cyfweiliadau manwl ansoddol (awr o hyd) gyda pherchnogion/rheolwyr busnesau bach yn ogystal â sefydliadau aelodaeth sy'n cefnogi busnesau bach a darparwyr TG sy'n gweithio gyda chleientiaid busnesau bach. Dewisodd yr holl gyfranogwyr gael eu cyfweld trwy Zoom, er hwylustod. Roedd perchnogion/rheolwyr busnesau bach yn brin iawn o amser, ac roedd rhai yn dewis cael eu cyfweld gyda'r nos neu ar benwythnosau.

Cafodd yr holl gyfweiliadau gyda pherchnogion/rheolwyr busnesau bach a darparwyr TG oedd yn gweithio gyda chleientiaid busnesau bach eu canfod gan recriwtwyr hyfforddedig [Market Research Society](#) Cymru. Defnyddiodd recriwtwyr holiadur recriwtio y cytunwyd arno, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad D, i sgrinio cymhwysedd darpar gyfranogwyr i gymryd rhan, ac yna cawsant eu gwahodd i gyfweiliad. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o sefydliadau aelodaeth sy'n gweithio gyda busnesau bach i gymryd rhan gan Cwmpas.

2.2 Sampl ansoddol

2.2.1 Sampl cyffredinol

Mae cyfanswm y sampl yn cynnwys 23 o gyfweiliadau manwl, gan gynnwys:

- 17 cyfweiliad gyda pherchnogion/rheolwyr busnesau bach – 16 cyfweiliad manwl unigol ac 1 cyfweiliad manwl mewn parau (hy gyda 2 gyfranogwr)
- 3 chyfweiliad gyda darparwyr TG yn gweithio gyda chleientiaid busnesau bach
- 2 gyfweiliad gyda sefydliadau aelodaeth
- 1 cyfweiliad gyda darparwr sgiliau digidol yn gweithio gyda chleientiaid busnesau bach

Cynhaliwyd cyfweiliadau gan Research Works Limited rhwng 18 Ionawr a 27 Chwefror 2023.

2.2.2 Sampl perchnogion/rheolwyr busnesau bach

Roedd yr 17 cyfweiliad gyda pherchnogion/rheolwyr busnesau bach yn cynrychioli busnesau a oedd wedi bod yn masnachu am gyfnodau gwahanol o amser: o 1 i 130 o flynyddoedd.

Roedd y sampl yn cynnwys cymysgedd o fusnesau bach o ran:

- **Maint busnes:**
 - 4 cyfweiliad gyda busnesau ag 1 – 4 o weithwyr
 - 2 gyfweiliad gyda busnesau gyda 5 – 10 o weithwyr
 - 9 cyfweiliad gyda busnesau gyda 10+ o weithwyr
- **Lleoliad busnes:**
 - 4 cyfweiliad gyda busnesau yn Ne Ddwyrain Cymru
 - 2 gyfweiliad gyda busnesau yn Ne Orllewin Cymru
 - 7 cyfweiliad gyda busnesau yn y Canolbarth
 - 2 gyfweiliad gyda busnesau yng Ngogledd Cymru
- **Amgylchedd busnes:**
 - 4 cyfweiliad gyda busnesau mewn lleoliadau trefol
 - 4 cyfweiliad gyda busnesau mewn lleoliadau maestrefol
 - 9 cyfweiliad gyda busnesau mewn lleoliadau gwledig
- **Sector busnes:**
 - 2 gyfweiliad gyda busnesau yn y sector adeiladu
 - 2 gyfweiliad gyda busnesau yn y sector amaeth
 - 2 gyfweiliad gyda busnesau yn y sector adwerthu
 - 4 cyfweiliad yn y sector llety a bwyd
 - 2 gyfweiliad yn y sector cynhyrchu
 - 5 cyfweiliad mewn sectorau eraill gan gynnwys y fasnach foduro, trafnidiaeth a storio, gweinyddol a chymorth, eiddo a gweithgareddau gwasanaeth eraill

Roedd mwyafrif y cyfweiliadau (15 allan o 17) gyda busnesau yr aseswyd bod ganddynt 'allu digidol isel'; roedd 2 gyda busnesau yr aseswyd bod ganddynt 'allu digidol uwch'. Cafodd y ddau grŵp hyn eu cynnwys at ddibenion cymharu.

Aseswyd lefel gallu digidol busnesau yn erbyn y mesurau a ddefnyddiwyd ym Mynegai Digidol Busnes Lloyds UK a oedd yn cynnwys:

- Nid oes gan y busnes ei wefan ei hun
- Nid yw'r busnes yn defnyddio e-bost i gyfathrebu â chwsmeriaid a chyflenwyr
- Nid yw'r busnes yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â chwsmeriaid a chyflenwyr
- Nid yw'r busnes yn defnyddio gwasanaethau ar-lein y llywodraeth ee ffurflenni treth
- Nid yw'r busnes yn defnyddio bancio ar-lein ar y rhynggrwyd i fusnesau
- Nid yw'r busnes yn defnyddio meddalwedd cyfrifo busnes ar-lein

Diffiniwyd perchnogion/rheolwyr busnes a oedd yn cytuno â 3 neu fwy o'r datganiadau uchod fel rhai oedd â 'gallu digidol isel'. Yn ogystal, dywedodd y grŵp hwn nad oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i fuddsoddi neu wella'n ddigidol yn sylweddol yn y dyfodol agos. Cynlluniwyd y mesur ychwanegol hwn i adlewyrchu'r canfyddiad o Fynegai Digidol Busnes Lloyds UK nad oedd gan dros hanner y grŵp 'gallu digidol isel' unrhyw fwriad i flaenoriaethu datblygiad digidol. Diffiniwyd perchnogion/rheolwyr a oedd yn anghytuno â'r holl ddatganiadau fel rhai â 'gallu digidol uwch'¹.

Roedd y 18 cyfranogwr yn cynnwys cymysgedd o ran rhywedd ac ystod o oedrannau (rhwng 26 a 69 oed).



¹ Mynegai digidol busnes Lloyds Bank UK, Chwefror 2022. <https://www.lloydsbank.com/business/resource-centre/businessdigitalindex.html>

3. Crynodeb Rheoli

3.1 Natur sector preifat y busnesau bach yng Nghymru

Amcangyfrifir bod y sector busnesau bach preifat yng Nghymru yn cynnwys tua 217,200 o fusnesau, y mwyafrif helaeth ohonynt (tua 96%) yn rhai micro². Roedd lefel yr ymgysylltiad â thechnoleg ddigidol yn tueddu i gynyddu gyda maint busnesau, a microfusnesau oedd yn ymgysylltu leiaf yn gyffredinol. Bydd angen i unrhyw gymorth a gynigir yn y dyfodol ystyried a ddylid cyrraedd busnesau micro a bach o blith ystod eang o sectorau diwydiant ag anghenion amrywiol, ac os felly sut.



3.2 Dealltwriaeth o gynhwysiant digidol o fewn y sector

Roedd lefel bresennol ymgysylltiad busnesau bach yn y sector preifat â thechnoleg ddigidol wedi'i diffinio'n bennaf gan angen (h.y. gallu i oroesi o ran masnachu yn ystod y pandemig), yn ogystal ag archwaeth am dwf:

Nid oedd y rhai â'r lefel isaf o ymgysylltiad â thechnoleg ddigidol wedi cael eu gorfodi i weithredu ar-lein yn ystod y pandemig, oherwydd natur eu busnes. Yn ogystal, nid oedd y rhai nad oedd ganddynt unrhyw awydd am dwf yn teimlo bod angen iddynt ystyried technoleg ddigidol. Roedd y grŵp hwn yn tueddu i ddefnyddio e-bost, creu cynnwys ar gyfer Facebook, defnyddio bancio ar-lein, archebu rhai cyflenwadau ar-lein. Roedd gan rai le storio a chadw copiâu wrth gefn yn y cwmwl, ond nid oedd yr un ohonynt yn ymwneud â seiberddiogelwch.

Roedd y rhai oedd â lefelau uwch o ymgysylltiad â thechnoleg ddigidol naill ai:

- Wedi cael eu gorfodi i weithredu mwy ar-lein yn ystod y pandemig. Roedd y grŵp hwn yn fwy tebygol o fod â gwefannau, presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, yn defnyddio cyfrifyddu ar-lein a defnyddio lle storio yn y cwmwl. Roedd gwell gwerthfawrogiad o seiberddiogelwch ymhlith y grŵp hwn a pheth ymwybyddiaeth y gellid defnyddio data i gefnogi gwneud penderfyniadau
- Neu roedd y grŵp hwn wedi archwilio technoleg ddigidol cyn y pandemig i helpu i gadw i fyny â chystadleuwyr a/neu ennill mantais gystadleuol. Roedd ymgysylltiad y grŵp hwn â thechnoleg ddigidol wedi'i ysgogi gan gyflwyno systemau rheoli penodol i'r diwydiant a oedd wedi creu rolau ar gyfer staff TG a oedd yn gofalu am ddiogelwch data, rheoli data a dadansoddi

² Ystadegau Cenedlaethol BEIS. Amcangyfrifon poblogaeth busnes ar gyfer y DU a'r rhanbarthau 2022: datganiad ystadegol. Mae hwn yn adrodd ar fusnesau'r sector preifat, mae'n eithrio'r llywodraeth a'r sectorau dielw ac yn amcangyfrif nifer y busnesau yn y sector preifat drwy gyfuno niferoedd amcangyfrifedig o fusnesau anghofrestredig â data am fusnesau cofrestredig sy'n deillio o gofrestr fusnes gynhwysfawr (Cofrestr Busnes Rhyngadrannol ONS).

3.3 Allgáu digidol a rhwystrau o ran sgiliau digidol sy'n wynebu busnesau bach

Nodwyd cost ac amser fel y rhwystrau mwyaf i gynyddu gallu digidol i fusnesau bach yn y sector preifat. Er bod rhwystrau'n cael eu dyfynnu'n aml, daeth eraill i'r amlwg a allai fod yr un mor ddylanwadol.

- Roedd diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r manteision a allai ddod yn sgil technoleg ddigidol ymhlith y rhwystrau mwyaf. O ganlyniad, roedd yma ofn gwastraffu arian ar gynnyrch a gwasanaethau amhriodol
- Yn aml, nid oedd gan berchnogion/rheolwyr busnesau bach yr hyder i ganfod gwybodaeth am y manteision y gallai technoleg ddigidol eu cynnig ac, o ganlyniad, roeddent yn aml yn gwneud penderfyniadau am atebion digidol penodol yn seiliedig ar ragdybiaethau
- Roedd y tybiaethau hyn yn creu rhwystr arall: ofnau am ganlyniadau newid. Weithiau roedd y rhain yn ofnau ynghylch tarfu ar barhad busnes; ar adegau eraill roedd y rhain yn ofnau ynghylch ymdopi â galw cynyddol posibl
- Roedd datrysiadau digidol hygyrch yn denu diddordeb perchnogion/rheolwyr oedd yn awyddus i feithrin eu sgiliau eu hunain. Am y rheswm hwn, roedd sgiliau cyfathrebu (ee Facebook, Google Maps) yn aml wedi'u datblygu'n fewnol. Teimlid bod angen cefnogaeth darparwyr allanol i gael mynediad i'r sgiliau hanfodol eraill h.y. creu, gwneud trafodion, seiberddiogelwch, rheoli gwybodaeth a datrys problemau, a oedd yn creu rhwystr o ran cost
- Er bod datrysiadau digidol hygyrch wedi galluogi llawer o berchnogion/rheolwyr i ymgysylltu â thechnoleg ddigidol, datblygu eu sgiliau eu hunain a chadw ymdeimlad o reolaeth dros eu busnes heb fynd i gostau, tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod perchnogion/rheolwyr y microfusnesau lleiaf yn wynebu rhwystrau o ran sgiliau TG sylfaenol a fyddai'n eu hatal rhag defnyddio hyd yn oed yr atebion digidol mwyaf hygyrch

3.4 Effaith allgáu digidol a diffyg sgiliau digidol ar fusnesau bach

Roedd effaith ganfyddedig allgáu digidol a diffyg sgiliau digidol yn amrywio rhwng y rheini a oedd yn ymgysylltu'n fwy ac yn llai â thechnoleg ddigidol. Roedd y rhai oedd â'r lefel isaf o ymgysylltu â thechnoleg ddigidol yn poeni am effaith negyddol bosibl ymgysylltu â'r dechnoleg (yn hytrach nag effaith negyddol bosibl peidio ag ymgysylltu â hi). Roedd y rhai gyda lefelau uwch o ymgysylltu â thechnoleg ddigidol yn poeni y byddai eu busnesau yn dioddef pe na baent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn manteisio ar unrhyw gyfleoedd a gyflwynid gan y dechnoleg ddigidol.

3.5 Pa gymorth sydd ei angen gan y sector?

Nid oedd y rhai â'r lefel ymgysylltu isaf yn ymwybodol o sut y gallai technoleg ddigidol gefnogi eu busnes ac nid oedd ganddynt ddiddordeb arbennig mewn cael gwybod. Yn gyntaf, mae angen cymorth ar y grŵp hwn i ymgysylltu â thechnoleg ddigidol (drwy awgrymiadau gan ddylanwawdwr fel cyfrifwyr, cymheiriaid, cyflenwyr a darparwyr technoleg).

Bydd angen i gyfathrebiadau sy'n annog y gynulleidfa hon i ymgysylltu â chymorth a chefnogaeth gyfleu manteision diriaethol atebion digidol sy'n datrys anghenion busnesau bach. Bydd angen cyfleu'r manteision hyn gan negeswyr credadwy hy pobl eraill sy'n berchen ar/ sy'n rheoli busnesau bach yn y sector preifat.

Roedd y rhai â lefel uwch o ymgysylltu yn ymwybodol eu bod yn ôl pob tebyg yn colli allan ar atebion digidol a fyddai'n cefnogi eu busnes ac roedd ganddynt ddiddordeb mewn cael gwybod mwy. Yn y dyfodol, hoffai'r grŵp hwn gael newyddion am ba dechnoleg ddigidol i ymgysylltu â hi ynghyd ag adnabyddiaeth glir o'r manteision i'w busnes, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o anghenion eu busnes penodol.

Yn ddelfrydol, roedd y rhai â lefel uwch o ymgysylltiad hefyd eisiau cymorth i archwilio technoleg ddigidol mewn ffyrdd effeithiol o ran cost ac amser. Roedd hwn yn ateb hyblyg i'r rhai oedd yn pryderu am ymrwymo amser ac arian i 'hyfforddi' neu gyflogi isgontractwyr arbenigol.

Mewn cyferbyniad, bydd angen cymorth ar berchnogion/rheolwyr y microfusnesau lleiaf a'r rhai sy'n ymgysylltu leiaf i ddatblygu sgiliau digidol sylfaenol i'w galluogi i fanteisio ar hyd yn oed yr atebion digidol mwyaf hygyrch.



4. Prif Ganfyddiadau

Adroddir ar y canfyddiadau trwy ymdrin â phob amcan ymchwil yn ei dro (fel y rhestrir yn adran 1.2), wedi'i gefnogi gan dystiolaeth o'r ymchwil desg a'r ymchwil ansoddol.

4.1 Natur sector y busnesau bach preifat yng Nghymru

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r adroddiad ymchwil desg, sydd i'w weld yn llawn yn Atodiad B.

4.1.1 Nodweddion y sector busnesau bach yng Nghymru

Mae'r sector busnesau bach yn cynnwys 2 grŵp gwahanol: busnesau maint 'bach' gyda 10-49 o weithwyr a busnesau maint 'micro' gyda 0-9 o weithwyr. Yng Nghymru a Lloegr, y grŵp maint 'micro' yw'r mwyaf o bell ffordd, sef 83.7% o fusnesau yng Nghymru ac 85% o fusnesau yn Lloegr³. Mae'r grŵp maint 'bach' o faint tebyg yng Nghymru a Lloegr; 13.3% o fusnesau yng Nghymru a 12.1% o fusnesau yn Lloegr.

Amcangyfrifwyd nifer y busnesau 'micro' a 'bach' yn y sector preifat yng Nghymru. Unwaith eto, mae'r grŵp maint 'micro' yn sylweddol fwy na'r grŵp 'bach': mae tystiolaeth ystadegol yn awgrymu bod 208,700 yn fusnesau micro ac 8,500 yn fusnesau bach⁴. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu maint cyffredinol y gynulleidfa ar gyfer unrhyw ymyriad o ran sgiliau digidol yn y dyfodol, er bod lefel a math yr allgáu digidol a'r anghenion am sgiliau digidol ymhlith y gynulleidfa hon yn amrywio'n sylweddol. Fel y trafodwyd yn adran



4.2, roedd microfusnesau yn tueddu i ymwneud llai â thechnoleg ddigidol na busnesau bach.

Mae proffil y grwpiau busnesau bach a micro yn amrywio o ran sector diwydiant. Y grwpiau diwydiant sydd â'r gyfran fwyaf o fusnesau bach yng Nghymru yw: iechyd, llety a bwyd, cynhyrchu cyfanwerthu ac addysg⁵. Mewn cyferbyniad, mae busnesau maint micro yn dominyddu dau o'r grwpiau diwydiant mwyaf yng Nghymru: amaethyddiaeth ac adeiladu⁶. Felly, bydd angen i unrhyw gymorth a gynigir yn y dyfodol ystyried a ddylid nodi a chyrraedd busnesau micro a bach ar draws ystod o sectorau diwydiant sydd ag anghenion amrywiol, ac os felly, sut.

³ BEIS Longitudinal Small Business Survey: SME Employers – UK, 2021.

[Arolwg Busnesau Bach 2021: busnesau gyda gweithwyr - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/statistics/2021-small-business-survey)

⁴ Ystadegau Cenedlaethol BEIS. Amcangyfrifon poblogaeth busnesau ar gyfer y DU a rhanbarthau 2022: datganiad ystadegol. Mae hwn yn adrodd ar fusnesau'r sector preifat, yn eithrio'r llywodraeth a'r sectorau dielw ac yn amcangyfrif nifer y busnesau yn y sector preifat drwy g yfuno niferoedd amcangyfrifedig o fusnesau anghofrestredig â data am fusnesau cofrestredig sy'n deillio o gofrestr fusnes gynhwysfawr (Cofrestr Busnes Rhyngadrannol ONS).

⁵ UK business, activity, size and location; 2022. Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol.

⁶ BEIS Longitudinal Small Business Survey: SME Employers – UK, 2021.

[Arolwg Busnesau Bach 2021: busnesau gyda gweithwyr - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/statistics/2021-small-business-survey)

Mae tystiolaeth bresennol yn awgrymu bod cyflogwyr busnesau bach a micro yng Nghymru yn gymharol optimistaidd o ran rhagolygon. Er enghraifft, roedd cyflogwyr BBaCh yng Nghymru (33%) yn fwy hyderus y byddai niferoedd cyflogaeth yn cynyddu o gymharu â'r rhai yn Lloegr (30%). Yn ogystal, roedd 49% o gyflogwyr BBaCh Cymru yn disgwyl i drosgiant dyfu, o gymharu â 45% o gyflogwyr BBaChau yn Lloegr⁷. Adlewyrchwyd yr optimistaeth hon yn y cyfweiliadau ansoddol, lle nad oedd angen llawer o anogaeth ar y rhan fwyaf o gyfranogwyr i ddatgelu a thrafod eu dyheadau ar gyfer eu busnesau yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd y rhan yr oedd perchnogion/rheolwyr busnesau bach preifat yn ei rhagweld y gallai'r elfen ddigidol ei chwarae wrth gyflawni'r dyheadau hyn yn y dyfodol yn amrywio, fel y disgrifir isod ac yn fanylach yn adran 4.2.

4.1.2 Gallu digidol busnesau bach yng Nghymru

Mae Mynegai Digidol Busnes Lloyds UK yn darparu ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth am lefel digideiddio busnesau bach a chanolig yn y DU. Ei chyfyngiadau yw ei bod yn adrodd ar ganfyddiadau yn seiliedig ar fusnesau bach a chanolig, y cyfeirir atynt fel 'BBaChau', yn ogystal ag ar sail pob BBaCh (yn hytrach na busnesau bach a chanolig yn y sector preifat)⁸.

Yng Nghymru, mae cyfran y busnesau sydd â gallu digidol uchel wedi cynyddu o 45% yn 2014, i 65% yn 2019 a 79% yn 2021. Fodd bynnag, yn 2021, roedd 21% o fusnesau yng Nghymru yn y segment gallu digidol isel, ac, o fewn y segment hwn, dywedodd 56% nad oedd ganddynt unrhyw fwriad i flaenoriaethu datblygiad digidol. Roedd mwyafrif y sampl ansoddol o'r grŵp hwn, sef y grŵp sydd wedi'i 'eithrio'n ddigidol fwyaf', fel yr eglurwyd yn adran 2.2.2. Mae ysgrifau portread o fusnesau o'r grŵp hwn i'w gweld yn adrannau 4.2.1 a 4.2.2.

Mae Mynegai Digidol Busnes Lloyds UK hefyd yn disgrifio 6 'sgil digidol hanfodol' ac yn amlygu cyfran y busnesau sy'n nodi y gallant ymgymryd â phob un ohonynt. Mae cyfran y busnesau yng Nghymru sy'n datgan eu bod yn gallu cyfathrebu'n ddigidol, creu'n ddigidol, datrys problemau a thrafod ar-lein yn cyd-fynd â'r gwahanol ranbarthau yn Lloegr. Fodd bynnag, roedd cyfran is yn teimlo bod ganddynt sgil mewn seiberddiogelwch o gymharu â llawer o ranbarthau eraill yn Lloegr. Adlewyrchwyd diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o seiberddiogelwch yn y cyfweiliadau ansoddol a oedd yn awgrymu bod hwn yn faes penodol o angen o ran sgiliau digidol.

Mae adrannau 4.2.1 a 4.2.2 yn disgrifio i ba raddau y mae perchnogion/rheolwyr busnesau bach preifat o'r 'grŵp sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn ddigidol' yn defnyddio'r sgiliau hyn, yn ogystal â'r effaith y maent yn ei chael ar eu busnesau.

⁷ BEIS Longitudinal Small Business Survey: SME Employers – UK, 2021.

⁸ Arolwg Busnesau Bach 2021: busnesau gyda gweithwyr - GOV.UK (www.gov.uk)

⁸ Mynegai digidol busnes Lloyds Bank UK, Chwefror 2022. <https://www.lloydsbank.com/business/resource-centre/businessdigitalindex.html>

4.1.3 Rôl busnesau bach mewn cymunedau yng Nghymru

Mae'r data ansoddol yn datgelu'r amrywiaeth o ffyrdd y mae busnesau bach yn cefnogi cymunedau; nid yn unig o ran darparu gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth, ond hefyd o ran cyfalaf cymdeithasol:

“

Byddwn bob amser yn rhoi blaenoriaeth i gwsmeriaid rheolaidd o flaen cwsmeriaid newydd. Mae rhai pobl yn y gymuned yn dibynnu ar y salon, ar gyfer sgwrsio a rhyngweithio, ac weithiau ni yw'r unig bobl y maent yn siarad â nhw yn ystod eu hwythnos. Maen nhw'n rhannu eu trafferthion, ac mae hynny'n bwysig i ni. Mae'r gymuned yn bwysig iawn, ond wrth gwrs rydym yn agored i gleientiaid newydd ac yn ehangu. Ond fyddwn i byth yn aberthu cwsmeriaid rheolaidd a'r gymuned trwy fod yn drachwantus.

(Busnesau micro, gweithgareddau gwasanaeth eraill, lefel uwch o ymgysylltu)

”



“

Mae llawer o'r staff iau wedi tyfu i fyny yn gweithio yn y gwesty ers iddynt fod yn 14/15. Maen nhw'n dechrau yn y gegin yn golchi llestri, yna'n symud ymlaen i weini, maen nhw'n dod i wybod yn union sut mae popeth yn gweithio ac i ble mae'n mynd, mae'n gymuned.

(Busnesau bach, llety, lefel ymgysylltu uchaf)

”

“

Os oes angen i mi fynd yn ddigidol i gynnig boreau coffi neu grwpiau cefnogi, dyna ddod â phobl at ei gilydd, dyna beth sy'n bwysig, nid tyfu fy musnes i wneud elw.

(Busnesau micro, gwasanaeth bwyd, lefel uwch o ymgysylltu)

”

I nifer fach, roedd yr awydd i gefnogi'r gymuned leol yn rhwystr i ymgysylltu â thechnoleg ddigidol:



Sut byddai ein cwsmeriaid hŵn yn gweithio gyda hynny [taliadau dros y we]? Ydyn nhw'n mynd i fod yn gyfforddus yn mynd ar wefan a rhoi manylion eu cerdyn? Mae'n rhaid i chi deilwra'ch busnes i bawb

(Busnesau bach, adeiladu, lefel isaf o ymgysylltu)



4.2 Dealltwriaeth o gynhwysiant digidol o fewn y sector


Roedd lefel a math yr allgáu digidol a'r anghenion o ran sgiliau digidol ymhlith cynulleidfa'r busnesau bach yn y sector preifat yn amrywio'n sylweddol. Daeth sbectrwm i'r amlwg:

- O blith y rhai sydd ag ymgysylltiad (neu ddiddordeb) cyfyngedig iawn mewn technoleg ddigidol, a ddisgrifir yn 4.2.1 ac a labelwyd fel 'y rhai sydd â'r ymgysylltiad lleiaf â thechnoleg ddigidol';
- I'r rhai sydd â mwy o ymgysylltiad â thechnoleg ddigidol ac sydd â diddordeb mewn darganfod mwy, a ddisgrifir yn 4.2.2 ac a labelir fel 'rhaf â lefel uwch o ymgysylltu â thechnoleg ddigidol';

- I'r rhai sy'n gweithio'n rheolaidd gyda chynhyrchion a gwasanaethau digidol, a labelir fel 'rhaf sydd â'r lefel uchaf o ymgysylltu â thechnoleg ddigidol

Defnyddir y termau 'isaf', 'uwch' ac 'uchaf' mewn perthynas â busnesau eraill yn y sampl (h.y. nid unrhyw fesur allanol, annibynnol o ymgysylltu â thechnoleg ddigidol).

Mae'r ddau grŵp cyntaf yn cynnwys busnesau sydd wedi'u recriwtio fel rhaf sydd â 'gallu digidol isel' ac mae'r trydydd grŵp yn cynnwys busnesau sydd wedi'u recriwtio fel rhaf sydd â 'gallu digidol uwch', fel yr eglurir yn adran 2.2.2.



Ffigur 1: sampl wedi'i rannu'n segmentau yn seiliedig ar asesiad ansoddol o lefel eu hymgysylltiad â thechnoleg ddigidol

Mae'r grwpiau hyn yn adlewyrchu'r sampl hon o fusnesau ar adeg benodol; nid yw'n adlewyrchu llwybr. Byddai unrhyw symudiad rhwng grwpiau yn cael ei ddylanwadu gan angen a/neu awydd i dyfu (fel y disgrifir isod), neu sbardun allanol arall.

4.2.1 Ffactorau sy'n dylanwadu ar lefel ymgysylltu â thechnoleg ddigidol

Yn gyffredinol, roedd lefel ymgysylltiad busnesau â thechnoleg ddigidol wedi'i diffinio'n bennaf gan angen (h.y. gallu parhau i fasnachu), yn ogystal ag awydd am dwf.

Nid oedd y rhai â'r ymgysylltiad lleiaf â thechnoleg ddigidol wedi cael eu gorfodi i weithredu ar-lein yn ystod y pandemig, oherwydd natur eu busnes. O ganlyniad, roedd y grŵp hwn yn ymwneud llai â thechnoleg ddigidol na'r rhai a oedd wedi gorfod:

“

Pan oedden ni i gyd yn gweithio gartref, roedd yn rhaid i bawb ddefnyddio Teams a Zoom, ac roedd hynny'n wir wedi helpu i symud pobl ymlaen. Roedd pobl ychydig yn amheus i ddechrau ond rwy'n meddwl iddo ddod â phawb i mewn i'r byd ar-lein.

(Busnesau bach, gweithgynhyrchu, lefel uchaf o ymgysylltu)

”



Rydyn ni'n ddi-bapur. Mae pob dogfen yn cael ei storio yn OneDrive. Cyn Covid roedden ni'n argraffu popeth, ond ers hynny, mae popeth wedi mynd yn ddigidol. Roedd y newid yn syml iawn.

(Busnesau bach, gweithgareddau eiddo tirol, lefel uwch o ymgysylltu)



Roedd awydd busnesau i dyfu hefyd wedi dylanwadu ar eu lefel o ymgysylltu â thechnoleg ddigidol. Roedd y rhai a gafodd eu cymell i dyfu (ee busnesau newydd) yn fwy parod i ystyried sut y gallai technoleg ddigidol gefnogi eu nodau busnes. Roedd y rhai â'r ymgysylltiad mwyaf â thechnoleg ddigidol yn cystadlu â busnesau eraill a oedd yn cynnig yr un math o nwyddau a gwasanaethau yn eu hardal. Roeddent wedi archwilio technoleg ddigidol i'w helpu i gadw i fyny â chystadleuwyr a/neu ennill mantais gystadleuol.

Roedd y buddion hyn o lai o ddiddordeb i'r rhai â llai o gymhelliant i dyfu, a oedd yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar sut y gallai'r dechnoleg ddigidol amharu ar fasnachu mewn ffyrdd negyddol:



Dydw i ddim eisiau hysbysebu a chael fy mhledu a gorfod troi pobol i ffwrdd.

(Busnesau micro, gweithgareddau gwasanaeth eraill, lefel isaf o ymgysylltu)



4.2.2 Ymgysylltiad lleiaf â thechnoleg ddigidol

Roedd y busnesau yn y grŵp hwn yn cynnwys y rhan fwyaf o ficrofusnesau yn y sampl, yn ogystal â rhai busnesau bach. Nid oedd y grŵp hwn yn ymwybodol o sut y gallai technoleg ddigidol gefnogi eu busnes ac nid oedd ganddynt ddiddordeb arbennig mewn cael gwybod.

Y grŵp hwn a ddarparodd y dystiolaeth leiaf o 5 o'r 'sgiliau digidol hanfodol' a ddisgrifir ym Mynegai Digidol Busnes Lloyds UK (a ddisgrifir yn llawn yn Atodiad E), fel y disgrifir isod:



Cyfathrebu

Defnyddio e-bost i gyfathrebu â chwsmeriaid a chyflenwyr.



Creu

Nifer cyfyngedig o gysylltiadau cwsmeriaid yn cael eu cynhyrchu gan gynnwys tudalen Facebook.



Trafodion

Bancio ar-lein, archebu rhai cyflenwadau ar-lein ond nid o reidrwydd yn rheolaidd.



Seiberddiogelwch

Mae dull gweithredu ar hap o gadw meddalwedd yn gyfoes a sicrhau diogelwch cyfrineiriau yn adlewyrchu'r ymgysylltiad lleiaf â seiberddiogelwch.



Rheoli gwybodaeth


I rai, defnyddio storfa yn seiliedig ar y cwmwl.



Beth petai'r gliniadur yn torri a does gen i ddim byd o gwbl? Beth os oes gennym doriad pŵer ac na allant ei drwsio am ychydig ddyddiau? Mae popeth yn aros yn ei unfan. Dyna pam dwi'n hoffi fy meiro a phapur. Nid ydych chi'n cael problemau technegol. Rwy'n gwybod bod yn rhaid i ni symud ymlaen, ond rwy'n meddwl nad yw dibynnu ar dechnoleg yn unig yn rhywbeth i mi. Mae angen i mi gael copi wrth gefn.



- Busnes toi teuluol, 4 gweithiwr, yn masnachu ers 2020, yn dibynnu ar un gliniadur, ynghyd â beiro a phapur
- Cwsmeriaid newydd ar lafar gwlad neu drwy dudalen fusnes Facebook
- Cyfathrebu â chwsmeriaid dros y ffôn, e-bost neu'r post
- Cyflenwadau a archebir ar-lein neu dros y ffôn gan dri chwmni lleol
- Dyddiadur papur, gliniadur ar gyfer anfonebu
- Bancio ar-lein
- Dim seiberddiogelwch



- ✘ Archwaeth isel am dwf
- ✘ Hyder/sgiliau isel
- ✘ Diffyg dealltwriaeth o fanteision technoleg ddigidol

4.2.3 Mwy o ymgysylltu â thechnoleg ddigidol

Roedd y busnesau yn y grŵp hwn yn cynnwys cymysgedd o fusnesau micro a bach o'r sampl. Roeddent yn ymwybodol ei bod yn debygol yn colli allan ar atebion digidol a fyddai'n cefnogi eu busnes ac roedd ganddynt ddiddordeb mewn darganfod mwy amdanynt.

Darparodd y grŵp hwn well tystiolaeth o 5 o'r 'sgiliau digidol hanfodol' a ddisgrifiwyd ym Mynegai Digidol Busnes Lloyds UK na'r grŵp blaenorol, fel y disgrifir isod:



Cyfathrebu

Defnyddio e-bost i gyfathrebu â chwsmeriaid a chyflenwyr. Mae'r grŵp hwn hefyd yn tueddu i fod â gwefannau, a ddefnyddir naill ai i brofi cyfreithlondeb busnes neu fel ffordd o gysylltu â gwefannau trydydd parti (ee booking.com neu weithgynhyrchwyr). Yn ogystal, roedd rhywfaint o dystiolaeth o ddefnyddio WhatsApp i gyfathrebu â grwpiau staff.



Creu

I rai, mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol (ee Instagram a Tik Tok yn ogystal â Facebook), yn enwedig ymhlith y busnesau mwy creadigol ee gwallt a harddwch, bwyd a diod.



Trafodion

Yn ogystal â defnyddio bancio ar-lein, roedd y grŵp hwn yn archebu cyflenwadau ar-lein fel mater o drefn, ac roedd rhywfaint o dystiolaeth hefyd o arferion cyfrifyddu ar-lein ee anfonebau a gynhyrchir yn awtomatig, lanlwytho derbynebau i apiau cyfrifeg.



Seiberddiogelwch

Gwell gwerthfawrogiad o bwysigrwydd seiberddiogelwch nad yw bob amser yn cyd-fynd ag arfer. Peth tystiolaeth o weithdrefnau arferol ee sganio gwrthfeirws, copïau wrth gefn.



Rheoli gwybodaeth

Defnydd cyson o storfa yn y cwmwl, ac roedd rhai yn defnyddio ffonau symudol i wneud busnes wrth symud.




Datrys Problemau


Roedd peth ymwybyddiaeth bod data ar gael o wefannau ond ychydig o ddefnydd a wneid ohono.



Mae hen systemau yn costio amser ac arian. Nid ydynt yn defnyddio'r tabledi a brynwyd ganddynt ar gyfer y bwyty i gymryd archebion oherwydd nad oes ganddynt yr amser na'r adnoddau i hyfforddi staff. Nid yw eu cyfrifon wedi'u hintegreiddio felly ni all y staff uwch gael mynediad at wybodaeth a fyddai'n helpu i redeg y gwesty o ddydd i ddydd.



- Gwesty gwledig, 30 o weithwyr (mae'r niferoedd yn amrywio'n dymhorol), yn masnachu 'am ganrifoedd'!
- System archebu a thalu ar-lein (ond heb ei hintegreiddio â systemau cyfrifo neu fancio)
- Tudalen Facebook ar gyfer cynigion hysbysebu, gwefan wedi dyddio ac nid yw'n cefnogi trafodion
- Archebu ar-lein arferol
- Rhai mesurau seiberddiogelwch yn eu lle
- Casglu data cwsmeriaid ond heb ei ddefnyddio



- x Ychydig o amser
- x Ychydig o arian i'w fuddsoddi
- x Ofn na fydd atebion digidol a awgrymir yn addas i'w dibenion

4.2.4 Yr ymgysylltiad uchaf â thechnoleg ddigidol

Roedd y busnesau yn y grŵp hwn i gyd yn fusnesau bach o'r sampl. Roedd systemau rheoli diwydiant-benodol wedi bod yn borth i archwilio atebion mwy digidol.

Dangosodd y grŵp hwn dystiolaeth well fyth o bob un o'r 6 'sgil digidol hanfodol' a ddisgrifiwyd ym Mynegai Digidol Busnes Lloyds UK na'r grŵp blaenorol, yn enwedig o ran ymgysylltu â chynhyrchion digidol (e.e. apiau a systemau rheoli), fel y disgrifir isod:



Cyfathrebu

Defnyddio e-bost i gyfathrebu â chwsmeriaid a chyflenwyr yn ogystal ag anfon negeseuon trwy wefannau, cyfryngau cymdeithasol a meddalwedd rheoli.



Creu

Symud i ffwrdd o wefannau a thuag at fwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol ee Facebook, Instagram, Twitter.



Trafodion

Bancio ar-lein, archebu cyflenwadau ar-lein fel mater o drefn yn ogystal â defnyddio meddalwedd cyfrifo ar-lein (ee Sage, Xero).



Seiberddiogelwch

Yn fwy tebygol o gael unigolyn i ofalu am TG ac felly mwy o dystiolaeth o weithdrefnau diogelwch arferol. Ond erys anghysondebau (ee diffyg polisiau cyfrineiriau).



Rheoli gwybodaeth

Defnyddio systemau rheoli diwydiant-benodol i reoli cwsmeriaid, staff, llif gwaith a chyfrifon (ee anfonebu) y gellir eu cyrchu drwy ffôn symudol. Peth defnydd o feddalwedd i gydweithio (ee Trello).



Datrys Problemau


Defnyddio data a gynhyrchir gan systemau rheoli (ee olrhain costau, rheoli stoc) ac a gynhyrchir gan wefannau i ddadansoddi traffig.



Ar hyn o bryd rydym yn dod i wybod am dechnoleg ddigidol yn bennaf trwy rwydweithio, byddai'n braf pe bai rhyw fath o borth lle gallech chi fynd i ddarganfod beth sy'n newydd a beth sy'n digwydd. Hanner y broblem yw darganfod beth sydd ar gael, oherwydd mae pethau'n mynd ac yn dod.



- Cynhyrwydd bwyd, yn masnachu am 15 mlynedd, yn cyflogi 40 o staff
- Mynd ati i chwilio am atebion digidol gan gynnwys: system rota ddigidol, meddalwedd cyfrifo ar-lein a Trello
- Cefnogir gan arbenigwr TG mewnol sy'n rheoli seiberddiogelwch
- Gyrru cwsmeriaid i gyfryngau cymdeithasol (Facebook ac Instagram) oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn fwy 'hylifol' na'r wefan



- ✓ Archwaeth isel am dwf
- ✓ Hyder/sgiliau isel
- ✓ Diffyg dealltwriaeth o fanteision technoleg ddigidol

4.3 Allgáu digidol a rhwystrau o ran sgiliau digidol sy'n wynebu busnesau bach

Canfu'r ymchwil desg dystiolaeth mai'r rhwystrau mwyaf i gynyddu gallu digidol i fusnesau bach yn y sector preifat oedd diffyg amser a chyllid. Yn wir, cost ac amser hefyd oedd y rhwystrau a nodwyd amlaf i ymgysylltu â thechnoleg ddigidol yn yr ymchwil ansoddol.

Roedd diffyg amser yn rhwystr arbennig i berchnogion/rheolwyr busnesau bach yn y sector preifat sy'n gyfrifol am weithrediadau o ddydd i ddydd yn ogystal â datblygu busnes yn y tymor canolig ac yn hirdymor:

“

Maen nhw mor brysur yn cynnal busnes, does ganddyn nhw ddim amser i roi'r stwff marchnata rydyn ni'n dweud wrthyn nhw y dylent ei wneud ar waith, heb sôn am orfod dysgu sgiliau newydd ar yr un pryd â gwneud yr hyn maen nhw'n ei wneud fel perchnogion busnes, mae'n ormod

(Rhanddeiliad)

”

“

Rydym wedi sôn am fynd yn gwbl electronig, ond diffyg amser ydy'r broblem. Ble ydych chi'n dechrau gyda hynny? Rydych chi angen rhywun i ddweud wrthy'ch chi neu ddangos i chi beth yw'r ffordd orau o wneud hynny

(Busnes bach, adwerthu, lefel uwch o ymgysylltu)

”

Roedd cost yn rhwystr sylweddol i fusnesau bach y sector preifat, yn enwedig yn yr amodau masnachu anodd presennol a grëwyd gan yr argyfwng costau byw:

“

Rydyn ni'n cael ein herio gymaint o safbwynt ariannol, mae gan bob shift yr isafswm staff, does dim adnoddau sbâr.

(Busnes bach, llety, lefel ymgysylltu uchaf)

”



Efallai y gallen nhw [busnesau bach] gael mynediad at gyllid ar gyfer cit, ond eto, efallai nad yw rhai sefydliadau eisiau gwneud hynny, a gallai eu rhoi mewn trafferthion ariannol os nad oes ganddyn nhw'r llif arian ar ei gyfer.

(Rhanddeiliad)



Er bod cost ac amser yn ddiau yn rhwystrau mawr, daeth rhai eraill i'r amlwg o'r ymchwiliad ansoddol a allai fod yr un mor ddylanwadol. Isod rydym yn trafod y ffactorau ychwanegol hyn, a adroddwyd o ran y tri chynhwysyn hanfodol ar gyfer cynhwysiant digidol: cysylltedd, hyder a sgiliau⁹.

4.3.1 Rhwystrau o ran cysylltedd

Ar y cyfan, teimlid bod rhwystrau o ran cysylltiad yn perthyn i'r gorffennol:



Yn 2016, roedd yn ymwneud llawer â busnesau gwledig yn methu â chael cyflymder y tu hwnt i ddeialu. Bu newid enfawr gyda hyn ers hynny, a dydyn ni ddim yn cael ymholiadau am y math hwnnw o beth bellach. Nawr fel arfer dim ond i gwyno am eu cyflenwr y mae pobl yn cysylltu, ond maen nhw fel arfer yn gallu cael mynediad at fand eang, neu gallwn roi atebion amgen iddyn nhw fel diwifr pwynt-i-bwynt.

(Rhanddeiliad)



Roedd cysylltedd yn arfer bod yn broblem enfawr, yn enwedig rhwng busnesau oedd eisiau trosglwyddo pethau rhwng dau safle gwahanol. Roedd eich cysylltedd yn arfer bod yn annibynadwy a oedd yn cynyddu gwrthwynebiad iddo, ond dydy hynny ddim yn broblem mewn gwirionedd, mae'r rhyngrwyd mor dda nawr.

(darparwr TG)



Ond roedd problemau cysylltu yn amlwg yn parhau i fod yn her i nifer fach:



Rydyn ni'n gweithio gyda phobl ar chwareli llechi sydd mor bell o'r prif safle a'r swyddfeydd a'r cysylltiad fel rydyn ni'n darparu dongl iddyn nhw fel eu bod nhw'n gallu cael cysylltedd. Mae'n broblem arbennig yng Ngorllewin Cymru a safleoedd datblygu lle nad oes dim am filltiroedd. Os ydyn nhw'n lwcus maen nhw'n cael signal ffôn, y gallwn ni ei chwyddo a'i ddefnyddio.

(darparwr TG)



⁹ Strategaeth Ddigidol i Gymru Llywodraeth Cymru (2021) – Cenhadaeth 2: cynhwysiant digidol <https://www.llyw.cymru/strategaeth-ddigidol-cymru-html#66659>

“

Gan ein bod yn y wlad, mae'n mynd i lawr cryn dipyn, sy'n rhwystredig. Dydy o ddim yn mynd i lawr yn hir, dim ond am ychydig funudau, ond mae'n rhwystredig pan rydych chi'n trio gwneud pethau. Mae'n digwydd unwaith neu ddwywaith y dydd. Maen nhw'n dweud o hyd eu bod nhw'n mynd i roi trefn ar bethau, ond dydy hynny byth yn digwydd.

(Busnes micro, llety, lefel uwch o ymgysylltu)

”

“

Rydyn ni'n mynd ar y rhyngrwyd ond mae popeth yn araf iawn. Ar y wefan hon, rydym wrth ymyl tref ac mae'n gyflym, ond ar y safleoedd eraill dydyn ni ddim yn cael signal rhyngrwyd a ffôn symudol gwych, felly mae'n rhaid i chi fynd i rywle lle gallwch gael signal. Yn aml, os nad oes gennym ni'r rhyngrwyd ar safle benodol, rydyn ni'n rhoi'r holl ddata i mewn ac yna pan fyddwn ni'n symud i safle lle mae gennym ni gysylltiad, bydd yn diweddarau wedyn. Dydy o ddim yn wych, ond mae'n gweithio nes i ni gael gwell signal yn yr ardaloedd gwledig.

(Small, agriculture, highest level of engagement)

”

“

I nifer o fusnesau mae tipyn o loteri o ran ble rydych chi sy'n pennu'r cyfleoedd sydd ar gael i chi gymryd rhan a manteisio ar gysylltedd digidol.

(Rhanddeiliad)

”

4.3.2 Rhwystrau o ran hyder

O'r holl rwystrau niferus i ymgysylltu â thechnoleg ddigidol, roedd diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r manteision a allai ddod yn ei sgil yn un o'r rhai mwyaf:

“

Mae anwybodaeth pobl yn rhwystr mawr, ddim yn gwybod beth allan nhw ei wneud a pha mor hawdd y gallai fod.

(darparwr TG)

”

“

Dydyn nhw ddim yn gwybod beth maen nhw eisiau pan maen nhw'n dod atom ni. Byddwn wedyn yn edrych i weld beth sydd ei angen arnyn nhw, yn esbonio pam eu bod ei angen a pham ei fod yn bwysig.

(darparwr TG)

”

Y rhwystr i gael y wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniadau gwybodus am atebion digidol oedd diffyg hyder: yn rhy aml o lawer nid oedd perchnogion/rheolwyr yn gwybod i bwy i ofyn am dechnoleg ddigidol na ble i chwilio am gymorth na sut i gael sgwrs am yr atebion hyn yng nghyd-destun eu busnes.

Ymhellach, roedd ofn gwastraffu arian ar gynnyrch a gwasanaethau amhriodol oherwydd diffyg gwybodaeth, a gydnabuwyd gan randdeiliaid a darparwyr TG:

“

Mae'n ymwneud â deall y dirwedd ddigidol hefyd, i osgoi peryglon, ac i osgoi cofrestru ar gyfer pethau nad oes eu hangen arnoch mewn gwirionedd.

(Rhanddeiliad)

”

“

Y pryder yw pobl yn cael eu drysu gan gwmnïau marchnata mawr atyniadol yn addo'r byd a heb wybod lle i fynd am gyngor diduedd a da.

(darparwr TG)

”

“

Ie, dydw i ddim eisiau dysgu miliwn o bethau os mai dim ond dau o'r miliwn o bethau hynny sydd eu hangen arnaf. Rydw i am i rywun esbonio'r ddau beth hynny y mae angen i mi eu dysgu i redeg y cwmni'n well, fel y gallaf wneud iddo redeg yn fwy effeithlon.

(Busnes bach, gweithgareddau gwasanaeth eraill, lefel ymgysylltu isaf)

”

Gan nad oedd perchnogion/rheolwyr busnesau bach yn aml yn deall y gwahaniaeth y gallai atebion digidol ei wneud i'w busnes, ac nad oeddent yn hyderus i ddarganfod, roeddent yn aml yn gwneud penderfyniadau am atebion digidol penodol yn seiliedig ar ragdybiaethau:

“

Dw i ddim yn meddwl y byddem yn defnyddio data cwsmeriaid.

(Busnes micro, gweithgareddau gwasanaeth eraill, lefel uwch o ymgysylltu)

”

“

Na, dydw i ddim yn meddwl y byddai [dyfynbrisiau ar-lein] yn gweithio i gwmni gosod toeon oherwydd mae'r cyfan yn gweithio ar fesuriadau a chyfrifo codiad y to ac onglau.

(Busnes bach, adeiladu, lefel isaf o ymgysylltu)

”

Roedd diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r manteision a allai ddod yn sgil technoleg ddigidol hefyd yn creu rhwystr arall; ofnau am ganlyniadau newid:

“

Pe baen ni'n mynd yn gwbl ddigidol yna mae yna botensial y bydden ni'n colli cryn dipyn o gwsmeriaid. Rwy'n siarad am y genhedlaeth hŵn nawr, dydyn nhw ddim yn gyfarwydd â thechnoleg o gwbl.

(Busnes bach, adeiladu, lefel isaf o ymgysylltu)

”

“

Y tro diwethaf iddyn nhw ddiweddarau'r feddalwedd oedd ychydig flynyddoedd yn ôl, a dwi'n bwriadu gofyn o hyd oes yna diweddariad arall. Rwy'n poeni y gallai'r diweddariad fod mor fawr fel y bydd yn wahanol iawn i'r hyn yr ydym wedi arfer ag ef.

(Busnes micro, gweithgareddau eiddo tirol, lefel isaf o ymgysylltu)

”

Weithiau roedd y rhain yn ofnau ynghylch tarfu ar barhad busnes (fel y dywedodd un darparwr TG, “Mae llawer o fusnesau bach yn mynd yn ôl y dywediad ‘os nad ydy o wedi torri, peidiwch â’i drwsio”); ar adegau eraill roedd y rhain yn ofnau am dwf posibl (ee sut byddwn ni’n ymdopi â chynnydd yn y galw?)

“

Mae'n ymddangos ein bod ni'n gwneud yn iawn fel yr ydym ni. Rwy'n rhyw fath o fabwysiadu'r dywediad, os nad ydy o wedi torri, peidiwch â'i drwsio.

(Busnes bach, adeiladu, lefel isaf o ymgysylltu)

”

4.3.3 Rhwystrau o ran sgiliau

Roedd perchnogion busnesau bach fel arfer yn seilio eu busnesau ar sgiliau personol e.e. cogyddion yn agor bwytai, ffermwyr yn arallgyfeirio i wahanol gynhyrchion. Roedd lefel y rheolaeth a oedd yn seiliedig ar arbenigedd personol dros eu busnesau, yn ogystal â'r gred nad oedd ganddynt y sgiliau i roi technoleg ddigidol ar waith felly yn fwy o rwystr i berchnogion/rheolwyr busnesau llai o gymharu â busnesau mwy sy'n fwy cyfarwydd â chyflogi contractwyr arbenigol:

“

Maen nhw'n ofni y bydd yn mynd yn rhy anodd neu y byddan nhw'n gwneud llanast o bethau.

(darparwr TG)

”

“

Efallai fy mod yn poeni mwy am fynd yn ddigidol a bod angen help oherwydd yr ochr gyfreithiol. Gwneud yn siŵr fy mod yn gwneud popeth yn gywir ac yn ddiogel.

(Busnes micro, gweithgareddau gwasanaeth eraill, lefel uwch o ymgysylltu)

”

Roedd pryderon perchnogion/rheolwyr am eu diffyg sgiliau personol yn arbennig o uchel mewn perthynas â seiberddiogelwch, rheoli gwybodaeth a thasgau datrys problemau.

Roedd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth arbennig o isel o'r hyn a oedd yn ymwneud â'r meysydd hyn o dechnoleg ddigidol ac felly y gwrthwynebiad mwyaf i ymgysylltu â nhw:

“

Fyddwn i ddim yn deall lle i ddechrau gyda hynny a dweud y gwir.

(Busnes bach, atgyweirio cerbydau modur, lefel uchaf o ymgysylltu)

”

Roedd datrysiadau digidol hygyrch yn ddeniadol i berchnogion/rheolwyr oedd yn awyddus i feithrin eu sgiliau eu hunain (a chadw rheolaeth). Disgrifiodd rhanddeiliaid sut mae perchnogion/rheolwyr busnesau bach yn y sector preifat yn 'dysgu pethau' wrth fynd yn eu blaenau (i raddau amrywiol o lwyddiant).

Am y rheswm hwn, roedd Facebook a Google Maps yn ffordd boblogaidd o gysylltu â chwsmeriaid ar gyfer y rhai oedd ymhlith y rhai oedd yn ymgysylltu leiaf â thechnoleg ddigidol:

“

Os oes gen i amser ac y gallaf ffidlan gyda fo, edrych drwy bethau, a dyna wnes i gyda Facebook, neu ar ôl i'm mab ei osod i fyny ar fy nghyfer. Chwarae o gwmpas gyda fo, dwi'n meddwl y byddwn yn dda am hynny.

(Busnes bach, gweithgareddau gwasanaethau cymorth, lefel isaf o ymgysylltu)

”

Roedd gweithwyr iau (yn ogystal ag aelodau'r teulu a ffrindiau) yn dod â sgiliau digidol ychwanegol i'r busnes ee sgiliau a enillwyd o ddefnydd personol o'r cyfryngau cymdeithasol. Yn ddiwylliannol, roedd gweithwyr iau yn fwy tebygol o gael safbwynt 'digidol yn ddiodyn'.

Fel y dywedodd un rhanddeiliad:

“

Symud gyda'r oes, weithiau mae hynny'n digwydd trwy genhedlaeth iau y busnes.

(Rhanddeiliad)

”

“

Y dyn telathrebu yma a ymunodd â'r busnes, mae o'n iau ac mae ganddo syniadau newydd ac roedd eisiau lledaenu ein negeseuon a'n gwasanaethau allan yna ar gyfryngau cymdeithasol.

(darparwr TG)

”

Mewn cymhariaeth, roedd diffyg sgiliau digidol ymhlith aelodau hynaf y gweithlu yn rhwystr arall i ymgysylltu â thechnoleg ddigidol:

“

Mae fy ngweinyddwr yn llai hyderus na fi. Mae hi yn ei 60au ac ychydig yn arafach i ddysgu gyda phethau fel taenlenni ac e-byst.

(Busnes micro, gweithgareddau eiddo tirol, lefel isaf o ymgysylltu)

”

O'r 6 sgil hanfodol a ddisgrifir ym Mynegai Digidol Busnes Lloyds UK (fel y trafodwyd yn adran 4.1.2), busnesau preifat bach oedd fwyaf tebygol o nodi a datblygu sgiliau 'cyfathrebu' yn fewnol, fel y disgrifir uchod. Yn yr un modd, roedd rhai sgiliau 'gwneud trafodion' hefyd wedi'u datblygu'n fewnol ee sgiliau bancio ar y rhynggrwyd a phrynu ar-lein, a hynny i raddau helaeth oherwydd rheidrwydd.

Fodd bynnag, canfuwyd bod mynediad at y sgiliau hanfodol eraill yn gofyn am gefnogaeth darparwyr allanol, a oedd yn creu rhwystr yn ymwneud â chost.

Er bod datrysiadau digidol hygyrch yn galluogi llawer o berchnogion/rheolwyr i ymgysylltu â thechnoleg ddigidol, datblygu eu sgiliau eu hunain a chadw rheolaeth heb fynd i gostau, nododd rhanddeiliaid fod perchnogion/rheolwyr y microfusnesau lleiaf yn wynebu rhwystrau o ran sgiliau TG sylfaenol a fyddai'n eu hatal rhag defnyddio hyd yn oed yr atebion digidol mwyaf hygyrch.

Ni theimlid bod cynnig ar gael i'r grŵp heb sgiliau TG sylfaenol:

“

Ar gyfer sgiliau penodol, fel dylunio ap, gallwch chi gael hynny. Ond ar gyfer y pethau sylfaenol a'r sylfeini, na, does dim byd ymarferol i berchnogion busnes.

(Rhanddeiliad)

”



4.4 Effaith allgáu digidol a diffyg sgiliau digidol ar fusnesau bach

Roedd effaith ganfyddedig allgáu digidol a diffyg sgiliau digidol yn amrywio rhwng y rheini a oedd yn ymgysylltu mwy a llai â thechnoleg ddigidol. Roedd y rhai oedd â'r lefel isaf o ymgysylltu â thechnoleg ddigidol yn poeni am effaith negyddol bosibl ymgysylltu ag ef (yn hytrach nag effaith negyddol bosibl peidio ag ymgysylltu ag ef). Roedd y rhai gyda lefelau uwch o ymgysylltu â thechnoleg ddigidol yn poeni y byddai eu busnesau yn dioddef pe na baent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn manteisio ar unrhyw gyfleoedd a ddeuai yn sgil technoleg ddigidol.

4.4.1 Canfyddiadau perchnogion/rheolwyr busnesau bach o effaith peidio â chael y wybodaeth ddiweddaraf am dechnoleg ddigidol

Roedd y rhai a oedd yn ymgysylltu mwy â thechnoleg ddigidol yn poeni y byddai eu busnesau'n dioddef pe na baent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf:

“

Dw i'n meddwl bod angen i ni fynd yn ddigidol, mae pwynt yn mynd i ddod lle mae'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn mynd i'n rhwystro ni rywfaint

(Busnes bach, adwerthu, lefel uwch o ymgysylltu)

”

“

Mae meddalwedd ein gwesty yn sylfaenol iawn ac mae hynny'n ein dal yn ôl.

(Busnes bach, llety, lefel uwch o ymgysylltu)

”

“

Byddai newid yn cael ei ysgogi gan sylweddoli nad yw ein system yn gwneud digon i ni bellach a bod angen mwy ohoni. Sylweddoli nad yw eich systemau'n gweithio mwyach a'ch bod yn gwneud y cyfan mewn ffordd hen ffasiwn, canfod eich hun ymhell ar ei hôl hi a ddim yn gwybod sut i ddal i fyny.

(Busnes micro, gweithgareddau eiddo tirol, lefel isaf o ymgysylltu)

”

Roedd yr holl gyfranogwyr, waeth beth oedd lefel eu hymgysylltiad â thechnoleg ddigidol, yn teimlo bod busnesau bach yn y sector preifat o bosibl yn colli cyfleoedd ar gyfer gwella drwy beidio ag ymgysylltu â thechnoleg ddigidol:

“

Mae gen i deimlad bod llawer mwy y gallem ni ei wneud

(Busnes micro, gweithgareddau eiddo tirol, lefel isaf o ymgysylltu)


”

Roedd y canlynol yn welliannau cyffredin yr oedd llawer o berchnogion/rheolwyr am eu gwireddu:

- **Mwy o gynhyrchiant:** “Dydych chi ddim bob amser yn gwybod ydych chi'n ei wneud yn y ffordd fwyaf cynhyrchiol.”
(Busnes bach, adwerthu, lefel uwch o ymgysylltu)
- **Rhannu gwybodaeth rhwng aelodau staff lleihau dibyniaeth ar aelodau tîm unigol:** “Ar hyn o bryd, dydy staff uwch ddim yn cael mynediad at wybodaeth a fyddai'n cynorthwyo'r gwaith o redeg y gwesty o ddydd i ddydd.”
(Busnes bach, llety, lefel ymgysylltu uchaf)
- **Mwy o ddiogelwch i ddiogelu parhad busnes:** “Cefais fy haoio ychydig cyn y Nadolig. Roedd faint o waith roedd yn rhaid i mi ei ail-wneud yn anghredadwy. Cymerodd y difrod a wnaethant mewn wythnos dri mis i mi ei ddadwneud.”
(Busnes bach, gweithgareddau eiddo tirol, lefel uwch o ymgysylltu)
- **Profiad gwell i'r staff:** “Rhyw fath o grŵp digidol sy'n teimlo'n fwy proffesiynol na WhatsApp, gyda chymedrolwr, fe allech chi rannu dogfennau a syniadau am fwydlenni neu'r gwinoedd tymhorol gorau. Byddai hynny'n wych. Neu ffordd o gyfathrebu gyda staff pan nad ydw i yno. Byddai'n dda rhoi mynediad hawdd i staff at eu holl ddogfennau, lle gallant fewngofnodi a gweld eu slipiau cyflog i gyd.”
(Busnes micro, gwasanaeth bwyd, lefel uwch o ymgysylltu)

- **Arbed amser:** “Pe na bai'n rhaid i ni ddibynnu ar WhatsApp, fe fyddai'n gwneud fy mywyd gymaint yn haws. Dim ond hanner wythnos fyddai'n rhaid i mi weithio wedyn.”
(Busnes bach, gweithgareddau eiddo tirol, lefel uwch o ymgysylltu)
- **Arbed costau:** “Oherwydd na allwn gymryd archebion ar ein gwefan, rydyn ni'n talu ffioedd mawr i booking.com sy'n lleihau maint ein helw.” (Busnes bach, llety, lefel ymgysylltu uchaf)

Roedd gwelliannau – fel yr uchod – yn rhesymau ysgogol dros ymgysylltu â thechnoleg ddigidol ar draws y sampl. Mewn cymhariaeth, nid oedd twf, yn enwedig o ran ennill busnes a denu cwsmeriaid yn nod a rennid yn gyson (fel y trafodwyd yn adran 3.2.1).



4.4.2 Canfyddiadau rhanddeiliaid o effaith peidio â chael y wybodaeth ddiweddaraf am dechnoleg ddigidol

Teimlai rhanddeiliaid fod diffyg ymgysylltu â thechnoleg ddigidol yn debygol o gael effaith fyd-eang ar weithrediad presennol a goroesiad busnesau bach yn y dyfodol:

“

Efallai nad ydyn nhw'n cyflwyno tendr ar ffurf diagram i edrych mor ffyni ag un rhywun arall. Gallai fod yn wefan i chi, sut ydych chi'n denu cwsmeriaid newydd; efallai na fydd yn chwyddo eich cynulleidfa fel y byddech chi petaech yn ei roi ar gyfryngau cymdeithasol. Mae popeth yn dod yn ôl i dechnoleg y dyddiau hyn. Mae popeth wedi newid ers mis Mawrth 2020.

(Rhanddeiliad)

”

Roedd y canfyddiad y gallai technoleg ddigidol ddod â manteision eang yn cyferbynnu gyda chanfyddiadau perchnogion/rheolwyr, a oedd yn fwy tebygol o feddwl am fanteision penodol cynnyrch neu wasanaethau gwahanol ee manteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol, manteision defnyddio meddalwedd cyfrifo ar-lein.

Heriai rhanddeiliaid hefyd ganfyddiad perchennog/rheolwr allweddol y byddai ymgysylltu â thechnoleg digidol yn cymryd llawer o amser. Yn y pen draw, teimlid bod ffyrdd digidol o weithio yn arbed amser:

“

Y fantais yw mwy o amser. Er mwyn canolbwyntio ar eu cynnyrch a'u busnes ac ennill mwy o gwsmeriaid, yn hytrach na dim ond rhedeg i aros yn llonydd. Maen nhw yn y pen draw yn gwario eu holl arian i aros yn llonydd. Gydag unrhyw fusnes mae'n rhaid i chi ddal ati i ddysgu, dal i dyfu, dal ati i symud.

(Rhanddeiliad)

”

“

Mae digidol yn fodd o gyrraedd diben. Mae'n ymwneud ag arferion busnes gwell sy'n mynd â chi ymhellach.

(Rhanddeiliad)

”

5. Casgliadau

5.1 Pa gymorth sydd ei angen gan y sector?

Roedd y rhan yr oedd perchnogion/rheolwyr yn rhagweld y gallai digidol ei chwarae yn nyfodol eu busnes yn amrywio:

- Nid oedd y rhai â'r lefel ymgysylltu isaf yn ymwybodol o sut y gallai technoleg ddigidol gefnogi eu busnes ac nid oedd ganddynt ddiddordeb arbennig mewn cael gwybod. Yn gyntaf, mae angen anogaeth ar y grŵp hwn i ymgysylltu â thechnoleg ddigidol. Yn ail, ar ôl ymgysylltu, mae angen cymorth ar y grŵp hwn i ddeall pa dechnoleg ddigidol i ymgysylltu â hi, yn ogystal â chymorth i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau digidol sylfaenol.
- Roedd y rhai â lefel uwch o ymgysylltu yn ymwybodol eu bod yn ôl pob tebyg yn colli allan ar atebion digidol a fyddai'n cefnogi eu busnes ac roedd ganddynt ddiddordeb mewn darganfod. Yn y dyfodol, mae ar y grŵp hwn angen cefnogaeth i ddeall pa dechnoleg ddigidol i ymgysylltu â hi, yn ogystal â chymorth i archwilio technoleg ddigidol mewn ffyrdd effeithiol o ran cost ac amser.



Mae'r adran hon yn disgrifio'r hyn yr oedd perchnogion/rheolwyr busnesau bach yn y sector preifat ei eisiau o'r mathau gwahanol hyn o gymorth.

5.2 Ysgogiadau i ymgysylltu â thechnoleg ddigidol

Mae amrywiaeth o bobl a sefydliadau allanol a allai ysgogi'r rheini â'r lefel isaf o ymgysylltu i ystyried atebion digidol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cyfryngwyr fel cyfrifwyr:** "Mae fy nghyfrifydd yn ymuno â chwmni arall ac rydw i'n meddwl tybed a fydd popeth yn newid, felly rydw i'n mynd i ofyn iddo a ddylwn i edrych ar fynd yn ddigidol ac os gallai o awgrymu beth ddylwn i ei ddefnyddio, pa feddalwedd fyddai orau i mi." (Busnes micro, gweithgareddau gwasanaeth eraill, lefel uwch o ymgysylltu)
- **Cymheiriaid mewn diwydiant:** "Roeddem mewn seremoni wobrwyo yn sgwrsio â gwahanol bobl eraill yn y diwydiant arlwy, ac meddai'r perchennog, 'O, rydw i newydd fod yn siarad â'r dyn yma am greu cyfrifon ar-lein'. Pan eglurodd y peth i mi, yr hyn roedd yn ei wneud, roedd yn swnio'n ddi-ddorol." (Busnes bach, gweithgynhyrchu, lefel uchaf o ymgysylltu)

- **Darparwyr technoleg:** "Ydy, mae copïau wrth gefn yn rhywbeth sydd yn y cwmwl. Fe wnaethon ni ddefnyddio rhywun, y des i wybod amdano unwaith eto trwy ffrind, pan oedd gennym ni broblemau TG, ac fe wnaethon nhw ei osod i fyny ar ein cyfer ni." (Busnes bach, atgyweirio cerbydau modur, lefel uchaf o ymgysylltu)
- **Cyflenwyr:** "Mae un o'n cyflenwyr eisiau i ni roi rhywbeth amdany'n nhw ar ein gwefan bob wythnos." (Busnes bach, manwerthu, lefel uwch o ymgysylltu)
- **Gorchmynion y Llywodraeth:** "Ydw i'n mynd i gael fy ngorfodi i wneud popeth yn ddigidol? Mynd yn ôl at eich hunanasesiad a phethau felly." (Busnes bach, adeiladu, lefel isaf o ymgysylltu)

Bydd angen i gyfathrebiadau sy'n annog y gynulleidfa hon i ymgysylltu â chymorth a chefnogaeth gyfleu manteision diriaethol atebion digidol sy'n datrys anghenion busnesau bach.

Bydd angen i negeswyr credadwy gyfleu'r manteision hyn h.y. pobl eraill sy'n berchen ar/rheoli busnesau bach yn y sector preifat:

“

Os ydyn nhw'n gallu uniaethu â'r sawl sy'n eu cynghori, a faint o wahaniaeth y gellir ei wneud, mae pobl yn gallu cysylltu. Os oes rhywun mewn siwt gyda 50 o weithwyr yn dweud wrthy'ch am roi trefn ar eich pethau digidol a seiber, mae'n ddiystyr.

(Rhanddeiliad)

”

5.3 Cefnogaeth i ddeall pa dechnoleg ddigidol i ymgysylltu â hi

Roedd y rhai oedd â lefel uwch o ymgysylltiad â thechnoleg ddigidol am i newyddion am atebion digidol perthnasol gael eu cyflwyno iddynt (yn hytrach na disgwyl iddynt chwilio amdano drostynt eu hunain):

“

Dim ond pan fydd pobl yn rhoi gwybod i chi am y pethau hyn... mae angen i ni fod yn well am ddarganfod pethau. Ar hyn o bryd rydym yn ei wneud yn bennaf o rwydweithio, byddai'n braf pe bai rhyw fath o borth lle gallech chi fynd i ddarganfod beth sy'n newydd a beth sy'n digwydd.

(Busnes bach, gweithgynhyrchu, lefel uchaf o ymgysylltu)

”

“

Dw i'n fwy na hapus i ddysgu, ond lle rwy'ti'n dechrau? Rydym yn ystyried gwneud ein rhestr eiddo ar-lein, dim ond mater o gael y wybodaeth ydy o mewn gwirionedd. Dydw i ddim yn gwybod am beth rydw i'n edrych

(Busnes bach, manwerthu, lefel uwch o ymgysylltu)

”

“

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud heddiw ydy sut mae wedi cael ei wneud erioed, felly mae'n rhaid bod ffyrdd o arbed amser, arbed arian, gwneud pethau'n haws a ffyrdd o wneud pethau nad ydym yn gwybod amdany'n nhw eto.

(Busnes bach, llety, lefel ymgysylltu uchaf)

”

Roedd y rhai â lefel uwch o ymgysylltu eisiau deall y manteision penodol y byddai atebion digidol yn eu cyflwyno:

“

Dydych chi ddim yn gwybod beth sydd ar gael a sut y gallai eich helpu. Oni bai bod rhywun wedi dweud wrthy'ch, mae llawer o bethau'n mynd heibio i chi. Rydyn ni'n ceisio bod yn fwy cyfoes, felly byddai'n dda cael gwybod, byddai hyn yn help.

(Busnes bach, manwerthu, lefel uwch o ymgysylltu)

”

“

Byddai'n rhaid i ni gyflwyno achos busnes dros pam mae'n rhaid i ni ei wneud. Mae angen bod yn glir beth sydd ynddo i'r busnes, y budd ariannol i'r gwesty neu'r gwasanaeth cwsmeriaid

(Busnes bach, llety, lefel ymgysylltu uchaf)

”

Yn ddelfrydol, roedd perchnogion/ rheolwyr busnesau bach yn y sector preifat eisiau cymorth a chefnogaeth yn deillio o ddealltwriaeth o anghenion eu busnes penodol, wedi'u darparu gyda dealltwriaeth o gyfyngiadau gweithredol h.y. o ran amser, arian a lefelau presennol o hyder a sgil:

“

Mae'n rhaid i chi dreulio amser yn siarad â pherchennog y busnes a dod i wybod sut maen nhw'n rhedeg pethau. Mae llawer mwy o waith i'w wneud i gael y wybodaeth gywir gan y busnes nag y meddyliech chi, er mwyn awgrymu gwelliant effeithiol. Gallai hefyd gymryd llawer o amser i berchennog y busnes, ond os ydyn nhw eisiau cynnal a thyfu yna mae'n amser sydd ganddyn nhw i fuddsoddi.

(darparwr TG)

”

“

Yn fy mhrofiad i, mae'r rhan fwyaf o gwmnïau eisiau cyngor teilwng; maen nhw eisiau gwybod a oes angen iddyn nhw brynu'r cit neu'r system newydd honno ai peidio.

(darparwr TG)

”

“

Fe wnaethon ni newid y tiliau llynedd oherwydd bod yr hen rai ar eu ffordd allan. Gorfodwyd hynny arnom. Gwnaeth y dyn a ddaeth allan i ffitio'r rhai newydd ein cyffroi'n fawr ac roedd yn swnio'n anhygoel, ond mewn gwirionedd ni wnaeth ofyn digon o gwestiynau inni neu ni wnaethom ni roi digon o wybodaeth iddo fo ac fe osododd y system ar osodiadau generig nad oedd yn addas ar gyfer ein hanghenion. Nid oedd yn cynhyrchu'r adroddiadau yr oedd eu hangen arnom. Wnaethon nhw ddim dod i'n hadnabod ni o gwbl, y cyfan roedden nhw eisiau oedd rhoi'r system i mewn a gorffen â hi

(Busnes bach, lleety, lefel ymgysylltu uchaf)

”

“

Rydw i wedi meddwl gofyn i rywun ddod i edrych ar y busnes i weld sut y gellir ei wella, rhywun i argymhell pa feddalwedd y dylwn fod yn ei ddefnyddio a'n diweddarau.

(Busnes micro, gweithgareddau eiddo tirol, lefel isaf o ymgysylltu)

”

5.4 Cefnogaeth i archwilio technoleg ddigidol mewn ffyrdd effeithiol o ran cost ac amser

Yn ddelfrydol, roedd perchnogion/rheolwyr busnesau bach am gael eu cyflwyno i dechnoleg hygyrch y gallent ei harchwilio eu hunain. Roedd hwn yn ateb hyblyg i'r rheiny oedd yn poeni am ymrwymo amser ac arian i 'hyfforddi' neu gyflogi isgontractwyr arbenigol:

“

Y ffordd hawdd fyddai cael rhywun sydd ddim yn atgas i ddod i mewn a dangos i mi beth allai gael ei wneud a'i osod yn ei le, ac yna fe allwn i gario ymlaen, neu fe allen nhw ei gymryd ymlaen.

(Busnes micro, gwasanaeth bwyd, lefel uwch o ymgysylltu)

”

Mewn cymhariaeth, ni theimlid bod cynigion hyfforddiant mor ddeniadol i'r gynulleidfa busnesau bach yn y sector preifat:

“

Does dim rhaid iddo fod yn gysylltiedig â chymwysterau, na darparwyr addysgol, nac â chael tystysgrif oherwydd mae hynny'n rhwystr ynddo'i hun.

(Rhanddeiliad)

”

Er nad oedd y syniad o 'hyfforddiant' o reidrwydd yn apelio, roedd angen cymorth ar berchnogion/rheolwyr y microfusnesau lleiaf a'r rhai oedd wedi ymgysylltu leiaf i ddatblygu sgiliau digidol sylfaenol i'w galluogi i fanteisio ar hyd yn oed yr atebion digidol mwyaf hygyrch.

6. Atodiadau

Atodiad A – termau ymchwil desg y cytunwyd arnynt